**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/FM/2763/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

21 Awst 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn iddo gael ei osod ac felly nid yw'n cadw at y confensiwn 21 diwrnod arferol. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach i ddileu'r wlad / gwledydd a ganlyn o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio:

- Awstria
- Croatia
- Trinidad a Thobago

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu Portiwgal at y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd mewn risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r lleoliad hwn/y lleoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud amryfal ddiwygiadau eraill i'r Rheoliadau mewn cysylltiad â'r eithriadau sectorol sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 2 ac ychwanegu digwyddiadau chwaraeon ychwanegol yn Atodlen 4.
Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd